

Sylwadau i'r Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru ar gyfer y cyfarfod ar 21 Mawrth 2019 – gan Elin Jones AC, Llywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Mae sylwadau'r Llywydd yn ymdrin â'r materion a godwyd gyda swyddogion a oedd yn debygol o fod o ddiddordeb i'r Comisiwn:

Beth y mae'r Cynulliad yn ei wneud eisoes mewn perthynas â chyfiawnder yn yr ystyr ehangaf – er enghraifft, gan gynnwys unrhyw waith yn ymwneud â'r sector cyngor a chymorth cyfreithiol yng Nghymru?

Er nad yw'r system cyfiawnder troseddol ei hun (gan gynnwys yr hyn y mae'r llysoedd yn ei wneud, trefniadau dedfrydu troseddwr, rheoli troseddwr sy'n cael eu cadw yn y ddalfa a'u hadsefydlu yn y gymuned) wedi'i datganoli, mae llawer o'r gwasanaethau y mae eu hangen i gynorthwyo troseddwr a chyn-droseddwr ac i'w hadsefydlu wedi'u datganoli: gwasanaethau tai, addysg a hyfforddiant, datblygu economaidd a llywodraeth leol. Mae budd-daliadau, gan gynnwys gwasanaethau Canolfannau Gwaith, wedi'u heithrio, wrth gwrs.

Hyd yma, mae swyddogion y Cynulliad wedi ymgymryd â gwaith ymatebol mewn perthynas â materion troseddol a chyfiawnder sifil (h.y. briffio pwyllgorau neu Aelodau Cynulliad unigol ar gais, neu roi gwybodaeth am faterion a drafodwyd neu y bwriedir eu trafod). O ystyried y sefyllfa o ran y setliad datganoli, nid ydym wedi ceisio darparu gwybodaeth ragweithiol i egluro tirwedd gymhleth cyfiawnder, nac i roi gwybod i'r cyhoedd am faterion cyfiawnder penodol, ar wahân i'r materion sy'n codi fel rhan o waith y pwyllgorau neu faterion cysylltiedig.

Mae'r enghreifftiau perthnasol sy'n codi o waith presennol pwyllgorau'r Cynulliad yn cynnwys:

- Darparu iechyd a gofal cymdeithasol yng ngharchardai Cymru - ymchwiliad gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol (daw'r ymgynghoriad i ben ar 14 Mai 2019)
- Iechyd meddwl yng nghyd-destun plismona a dalfa'r heddlu – ymchwiliad gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol (daw'r ymgynghoriad i ben ar 15 Mawrth 2019)

- Hawliau pleidleisio i garcharorion - ymchwiliad gan y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau (daeth yr ymgynghoriad i ben ac mae'r Pwyllgor yn trafod y dystiolaeth)

Mae'r Cynulliad yn debygol o fod yn craffu ar Fil Llywodraeth Cymru i ddileu amddiffyniad cosb resymol mewn achosion o ymosodiad cyffredin. Mae'r ffaith y gallai Bil o'r math hwn fod o fewn cymhwysedd y Cynulliad yn amlygu'r ffin aneglur sydd rhwng materion datganoledig a materion a gadwyd yn ôl yn y setliad datganoli.

Mae materion yn ymwneud â chyfiawnder **troseddol** hefyd wedi cael sylw yn ymchwiliadau eraill y Pumed Cynulliad, sef:

- [Busnes Pawb: adroddiad ar atal hunanladdiad yng Nghymru](#), y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Rhagfyr, 2018
- Bil Iechyd Cyhoeddus (Isafbris am Alcohol) (Cymru): Adroddiad Cyfnod 1, y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Mawrth 2018
- Bywyd ar y strydoedd: atal a mynd i'r afael â chysgu ar y stryd yng Nghymru, y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Ebrill 2018
- Cadernid Meddwl: Iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc yng Nghymru, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Ebrill 2018

Mae unrhyw ryngweithio rhwng y Cynulliad a'r sector cyngor a chymorth cyfreithiol yng Nghymru yn fwyaf tebygol o ddigwydd naill ai drwy gyfrwng Aelodau unigol neu pan fydd sefydliadau yn y sector yn rhoi tystiolaeth fel rhan o ymchwiliadau pwyllgor y Cynulliad - naill ai ar ffurf tystiolaeth ysgrifenedig ragweithiol, neu dystiolaeth lafar ar gais y pwyllgor, neu'r ddau.

Fel deddfwrfa, nid oes gan y Cynulliad bwerau i roi grantiau (ac eithrio mewn un achos cyfyngedig iawn yn ymwneud â chodi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r system etholiadol yng Nghymru). Gan hynny, ni fyddai'r Cynulliad yn gallu rhoi cymorth ariannol uniongyrchol i sefydliadau yn y trydydd sector sy'n rhoi cyngor/cymorth cyfreithiol, fel Canolfannau'r Gyfraith neu Ganolfannau Cyngor ar Bopeth. Fodd bynnag, gan fod yn rhaid i'r Cynulliad gymeradwyo cyllideb Llywodraeth Cymru bob blwyddyn, mae'n ganddo ran ym mhenderfyniadau Gweinidogion Cymru o ran pa sectorau i'w cynorthwyo, ac i ba raddau.

Beth yw'r cysylltiad rhwng y "seilwaith cyfiawnder" presennol a'r Cynulliad, yn enwedig unrhyw bwerau o ran penodi, gofynion adrodd neu lwybrau atebolrwydd eraill, a sut y mae'r Cynulliad yn ymdrin â'r rhain.

Mae gwasanaeth y llysoedd a'r tribiwnlysoedd wedi'u cadw'n ôl o gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad o dan Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Ni all y Cynulliad ddeddfu ynghylch cyfansoddiad y llysoedd neu'r tribiwnlysoedd, nac ynghylch penodi neu dalu barnwyr neu gadeiryddion ac aelodau tribiwnlysoedd, nac ynghylch mathau o achosion neu reolau trefniadaeth. Yr eithriad yw tribiwnlysoedd sy'n cyfrif fel "tribiwnlysoedd datganoledig" h.y. tribiwnlysoedd sy'n ymdrin â materion datganoledig yn unig a dim ond mewn perthynas â Chymru y gallant arfer eu swyddogaethau, neu pan fo'r swyddogaethau hynny o fewn cymhwysedd y Cynulliad er eu bod yn ymestyn y tu hwnt i ffiniau Cymru. (Mae cymhwysedd cyfyngedig pellach yn ymwneud ag achosion apêl).

Mae'r categori hwn yn wahanol i gategori "awdurdodau datganoledig Cymru" at ddibenion Atodlen 7B i'r Ddeddf, sy'n gosod llai o gyfyngiadau ar gymhwysedd y Cynulliad dros dribiwnlysoedd.

O dan Adran 59 o Ddeddf Cymru 2017, crëwyd y cysyniad o "dribiwnlysoedd Cymru" am y tro cyntaf. Dyma'r tribiwnlysoedd dan sylw:

- Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru
- Tribiwnlys Adolygiad Iechyd Meddwl Cymru
- Pwyllgorau asesu rhenti o dan Atodlen 10 i Ddeddf Rhenti 1977 (sy'n cynnwys tribiwnlysoedd prisio lesddaliadau a thribiwnlysoedd eiddo preswyl)
- Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru
- Tribiwnlysoedd o dan Atodlen 3 i Ddeddf Addysg 2005 (yn ymwneud â chofrestru arolygwyr ysgolion Cymru)
- Tribiwnlysoedd sy'n deillio o Banel Dyfarnu Cymru (yn ymdrin ag achosion honedig o dorri safonau ymddygiad llywodraeth leol)
- Tribiwnlys y Gymraeg

Mae'r holl dribiwnlysoedd hyn wedi'u "datganoli i Gymru" at ddibenion Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Maent i gyd yn ymdrin â materion sydd, yn eu hanfod, o fewn cymhwysedd datganoledig. Y cysylltiad cyffredin arall rhyngddynt yw mai Gweinidogion Cymru sy'n eu hariannu. Mae eu rheolau trefniadaeth wedi'u pennu, a chaiff eu haelodau eu penodi, mewn gwahanol ffyrdd. Yr Arglwydd Ganghellor sydd â'r pwerau perthnasol yn aml. Mae gan Weinidogion Cymru mwy, neu lai, o ran mewn tribiwnlysoedd eraill.

Ar hyn o bryd, nid oes gan y Cynulliad ran yn y broses o benodi aelodau'r tribiwnlysoedd hyn nac yn y broses o bennu eu rheolau trefniadaeth. Nid oes dyletswydd ar dribiwnlysoedd Cymru baratoi adroddiadau i'r Cynulliad.

Adran: Cyfreithiol/Ymchwil/CCS

Tîm:

Awdur: Elisabeth Jones/Kathryn Potter/Sian Wilkins

Mae gan y Cynulliad ran anuniongyrchol yn y broses o ariannu tribiwnlysoedd Cymru, gan fod yn rhaid iddo gytuno ar gyllideb flynyddol Llywodraeth Cymru, a daw cyllid y tribiwnlysoedd o'r gyllideb hon.

Nid oes gan y Cynulliad unrhyw lais mewn penderfyniadau ynghylch cyfansoddiad, rheolau etc tribiwnlysoedd eraill Cymru (h.y. triwbiwnlysoedd y mae Llywodraeth y DU yn eu hariannu) neu lysoedd sy'n eistedd yng Nghymru.

O dan Ddeddf Cymru 2017, crëwyd swydd Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru. Caiff y Llywydd ei benodi (fel arfer) gan Arglwydd Brif Ustus Lloegr, ar ôl ymgynghori â Gweinidogion Cymru. Bydd gan hwn neu hon gyfrifoldeb statudol i gynrychioli barn aelodau tribiwnlysoedd Cymru mewn trafodaethau â Gweinidogion Cymru "ac aelodau eraill o Gynulliad Cenedlaethol Cymru", ond ni fydd dyletswydd arno neu arni i osod adroddiadau gerbron y Cynulliad fel corff. Gweinidogion Cymru sy'n ariannu'r swydd.

Sut y byddai Comisiwn y Cynulliad yn ymateb i'r galw tebygol pe bai un neu ragor o'r canlynol yn cael eu datganoli: plismona, gwasanaeth y llysoedd, yr holl dribiwnlysoedd sy'n gweithredu yng Nghymru, dedfrydu, polisi carchardai a'r gwasanaeth carchardai, prawf a'r gwasanaeth prawf a chymorth ariannol ar gyfer achosion cyfreithiol (cymorth cyfreithiol)?

a

Pha adnoddau – cyfreithiol ac fel arall – ydych chi'n amcangyfrif y byddai eu hangen i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif ynghylch polisi yn y meysydd hyn?

Mae'n amlwg y byddai angen adnoddau sylweddol, o ran amser yr Aelodau ac amser swyddogol a gwybodaeth/profiad.

Byddai Comisiwn y Cynulliad yn ceisio cyfrannu at unrhyw broses y byddai Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn rhan ohoni wrth ymchwilio i'r posibilrwydd o roi unrhyw argymhellion gan y Comisiwn ar waith. Bryd hynny, byddai angen i Gomisiynwyr y Cynulliad ystyried yr effaith ar y Cynulliad a'i bwyllgorau, ymgymryd â'r gwaith o amcangyfrif faint o adnoddau y byddai eu hangen, ac ystyried y modelau posibl, ar y cyd ag unrhyw ymchwiliadau y byddai pwyllgorau'r Cynulliad yn eu cynnal i'r pwnc.

Byddai angen i'r Cynulliad graffu ar unrhyw ddeddfwriaeth angenrheidiol i ddatganoli pwerau newydd i'r Cynulliad a hynny drwy'r pwyllgorau, y cyfarfod llawn, neu'r ddau. Gallai hyn fod yn gymwys i ddeddfwriaeth y DU a'r Cynulliad.

Gwaith craffu'r pwyllgorau a'r cyfarfod llawn

Drwy'r pwyllgorau'n bennaf y bydd y Cynulliad yn craffu ar waith a chynigion Llywodraeth Cymru ac, os yw'n berthnasol, ar gyrff eraill fel gyrff cyhoeddus Cymru a Llywodraeth y DU. Bydd pwyllgorau'n cynnal ymchwiliadau trylwyr i faterion o'u dewis nhw, dros gyfnod o'u dewis nhw. Byddant yn casglu tystiolaeth mewn gwahanol ffyrdd; fel arfer bydd hyn yn cynnwys ymgynghoriad agored a thystiolaeth gan arbenigwyr a chyrrff yn y sectorau perthnasol; gallant hefyd ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau o geisio barn y rhai sydd â diddordeb yn y pwnc, gan geisio sicrhau bod y rhain mor gynrychiadol â phosibl.

Bydd pwyllgorau'n cyflwyno adroddiad ar eu canfyddiadau a'u casgliadau i'r Cynulliad ac yn eu cyhoeddi. Bydd yr adroddiadau'n aml yn arwain at drafodaethau yn y Cynulliad. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ymateb i bob un o adroddiadau'r pwyllgorau.

Bydd gwaith craffu cyn, ac ar ôl, y broses ddeddfu, sy'n ystyried y cyd-destun a'r angen i ddeddfu, a ph'un a yw'r ddeddfwriaeth yn cyflawni ei amcanion, yn mynd rhagddo yn yr un modd ag ymchwiliadau polisi. Mae gwaith craffu ddeddfwriaethol ffurfiol yn gweithio yn yr un modd, er mai'r Pwyllgor Busnes, yn hytrach na phwyllgorau unigol, sy'n pennu'r amserlen yn y cyswllt hwn. Mae gwaith craffu deddfwriaethol ffurfiol hefyd yn cynnwys cyfnodau penodol i drafod gwelliannau.

Bydd Pwyllgor Cyllid y Cynulliad yn ymgymryd â'r gwaith o graffu ar agweddau ariannol ar ddeddfwriaeth, cyllidebau a threthiant, mewn modd tebyg.

Bydd y Cyfarfod Llawn hefyd yn ymgymryd â gwaith craffu, er enghraifft, drwy holi Gweinidogion, gan gynnwys cwestiynau brys a chwestiynau amserol. Hefyd, gall Aelodau unigol neu bleidiau gwahanol gynnig dadl er mwyn cael ymateb gan y Llywodraeth, neu ragor o wybodaeth am farn neu waith y Llywodraeth, neu gellir gwneud cynigion neu welliannau i gynigion a gyflwynir gan Aelodau unigol.

Cyfyngiadau ar drefniadau a chapasiti pwyllgorau

Er bod y Cynulliad wedi gallu penderfynu ar ei system bwyllgora o'r dechrau un (er ei bod yn orfodol cael Pwyllgor Archwilio), ers diwygio'r setliad datganoli ym mis Ebrill 2018, mae gan y Cynulliad yn awr rwydd hynt i benderfynu ar gyfansoddiad ei bwyllgorau. Mae hyn yn caniatáu

i'r Cynulliad reoli'r broses o sefydlu pwyllgorau a'r dulliau a ddefnyddir i graffu ar feysydd newydd fel rhan o bwerau datganoledig.

Y prif gyfyngiad ar allu'r Cynulliad i graffu'n fanwl ar holl waith a chynigion Llywodraeth Cymru, yn awr ac yn y dyfodol, yw'r ffaith bod cyn lleied o Aelodau Cynulliad, a llai fyth o Aelodau nad oes ganddynt swydd seneddol, nad ydynt yn rhan o Lywodraeth Cymru neu nad oes ganddynt swydd yn y Llywodraeth honno.

Ar ôl diystyru'r Llywyddion ac aelodau Llywodraeth Cymru, gan dybio bod y Prif Weinidog yn dewis llenwi pob un o'r 14 swydd bosibl yn y Llywodraeth, dim ond 44 o Aelodau sydd ar ôl i ymgymryd â swyddogaethau craffu. Ar hyn o bryd, mae 14 o bwyllgorau yn y Cynulliad. Mae'r rhan fwyaf yn eistedd bob wythnos yn ystod tymhorau'r Cynulliad, ac mae rhai'n eistedd bob pythefnos. Mae maint y pwyllgorau'n amrywio o rhwng pedwar ac wyth aelod, ar wahân i'r Pwyllgor Craffu ar waith y Prif Weinidog, sy'n cynnwys y Dirprwy Lywydd a Chadeiryddion y pwyllgorau eraill, ac sy'n eistedd unwaith bob tymor.

Effaith y pwyllgorau a ddatganoli pwerau newydd

Pe bai pwerau ychwanegol yn cael eu datganoli, byddai angen i Gynulliad newydd ystyried pa flaenoriaethau y dylai gwaith craffu'r pwyllgorau ganolbwyntio arnynt. Byddai angen ystyried nifer y pwyllgorau a byddai'n eu sefydlu, gan ystyried eu cylch gorchwyl a nifer yr Aelodau fyddai ar gael i eistedd ar y pwyllgorau hynny.

Mae gan Senedd yr Alban Bwyllgor Cyfiawnder mawr. Mae gan y Pwyllgor hwnnw is-bwyllgor sy'n canolbwyntio ar Blismona; mae gan yr is-bwyllgor saith o Aelodau (h.y. dim ond un llai na phwyllgor llawn arferol sy'n craffu ar bolisi yn y Cynulliad).

Dim ond un Pwyllgor Cyfiawnder sydd gan Senedd San Steffan. Fodd bynnag, mae Tŷ'r Cyffredin yn sefydlu pwyllgorau i archwilio Biliau unigol, gan gynnwys Biliau ar unrhyw un o'r pynciau a restrir uchod. Mae Biliau'n ymwneud â chyfiawnder troseddol yn aml yn rhan o'r arlwy yn San Steffan. Mae asesiad bras o Ddeddfau Seneddol y DU ers 1999 yn awgrymu bod o leiaf un Bil bob dwy flynedd a fyddai wedi bod o fewn cymhwysedd llawn neu rannol y Cynulliad pe bai'r holl bynciau posibl a restrir uchod yn cael eu datganoli, ond bod materion a gedwir yn ôl ar hyn o bryd yn ymwneud â throeddau rhywiol a throeddau arbennig o ddifrifol yn erbyn y person yn cael eu dargadw. Pe bai'r rhain yn cael cynnwys, byddai'r nifer yn codi'n sylweddol.

O dan system bresennol y Cynulliad, byddai pob Bil tebyg yn cael ei ystyried gan Bwyllgor Cyfiawnder, yn hytrach na Phwyllgor Bil ar wahân. Mae'r amcangyfrif hwnnw'n diystyru unrhyw

amcanion polisi gwahanol y gallai Llywodraeth Cymru geisio'u cyflawni drwy'r system cyfraith droseddol a chyfiawnder troseddol.

Ar sail profiad Senedd yr Alban, mae'n debygol y byddai angen sefydlu mwy nag un pwyllgor i hwyluso gwaith craffu manwl pe bai'r holl feysydd a restrir uchod yn cael eu datganoli.

Capasiti o ran Aelodau ac argymhellion y Panel Arbenigol

Mae'r baich ar yr Aelodau, a'r goblygiadau o ran gwaith craffu da, yn cael eu trafod yn fanwl yn adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad, sef *Senedd sy'n Gweithio i Gymru* (Rhagfyr 2017). Yn ôl hwn, ac eithrio'r Pwyllgor Busnes a'r Pwyllgor Craffu ar waith y Prif Weinidog, roedd 12% o Aelodau'r Cynulliad yn aelodau o dri phwyllgor yr un, ac roedd 42% yn aelodau o ddau (fel ar fis Gorffennaf 2017). Y ffigurau cyfatebol yn Senedd yr Alban oedd 4% a 29%. O'u cymharu â Thŷ'r Cyffredin, roedd y gwahaniaeth yn fwy eto: yn San Steffan, ni fydd pob Aelod Seneddol yn aelod o hyd yn oed un Pwyllgor Dethol, heb sôn am ddau.

Yn ogystal â'u gwaith "arferol" ar bob pwyllgor y byddant yn aelod ohono, rhaid cofio y bydd rhai Aelodau yn cadeirio un pwyllgor, neu'n arwain eu grŵp gwleidyddol, neu'n gweithredu fel llefarydd y grŵp hwnnw ar faes polisi penodol, neu'n cyflawni mwy nag un o'r rolau hyn. Maent hefyd yn eistedd yn y Cyfarfodydd Llawn, yn ymgymryd â'u gwaith etholaethol/rhanbarthol pwysig, a'u rolau fel aelodau plaid, ymgyrchwyr a chyflogwyr.

Yn ei adroddiad ar Ddiwygio'r Cynulliad, dywedodd y Panel Arbenigol:

08.20 Yn 2004, argymhellodd Comisiwn Richard y dylai'r Aelodau wasanaethu ar un pwyllgor pwnc pwysig er mwyn datblygu arbenigedd pwnc ac er mwyn medru craffu'n well. Crybwyllwyd y nod synhwyrol hwn hefyd yn nhystiolaeth yr Arglwydd Lisvane, a awgrymodd:

...being a member of more than one committee dilutes the effort and knowledge, and reduces effectiveness.

08.21. Buom yn trafod y mater gyda dau arbenigwr seneddol blaenllaw—yr Arglwydd Norton a Greg Power (arbenigwr sydd wedi gweithio gyda seneddau a sefydliadau gwleidyddol mewn mwy na 30 o wledydd). Cytunodd y ddau y byddai'n rhesymol cymhwyso'r egwyddorion a ganlyn i aelodaeth pwyllgorau:

- i. Yn gyffredinol, dylai'r Aelodau wasanaethu ar ddim mwy na dau bwyllgor;*
- ii. Dylai cadeiryddion pwyllgorau wasanaethu ar eu pwyllgor eu hunain yn unig (oni bai eu bod yn defnyddio eu harbenigedd polisi penodol, er enghraifft, i wella'r gwaith craffu ariannol neu graffu ar waith y Prif*

Adran: Cyfreithiol/Ymchwil/CCS

Tîm:

Awdur: Elisabeth Jones/Kathryn Potter/Sian Wilkins

Weinidog).

Cadarnhaodd y Panel yr argymhelliad hwn ac roedd yn elfen bwysig a oedd wrth wraidd ei argymhelliad y dylai'r Cynulliad gynyddu nifer yr Aelodau i o leiaf 80 neu, gorau oll, i 90.

Byddai'r broses o ddiwygio'r Cynulliad, gan gynnwys cynyddu nifer ei Aelodau, yn unol ag argymhelliad y Panel Arbenigol, yn allweddol felly, i ganiatáu i'r Cynulliad graffu'n briodol ar y defnydd o nifer gynyddol o bwerau datganoledig fel plismona, gwasanaeth y llysoedd, yr holl dribiwnlysoedd sy'n gweithredu yng Nghymru, dedfrydu, polisi carchardai a'r gwasanaeth carchardai a chymorth ariannol ar gyfer achosion cyfreithiol (cymorth cyfreithiol).

Adnoddau o ran staff i hybu gwaith craffu

O ran swyddogion, bydd tîm llawn amser o bedwar clercc, mwy neu lai, yn cynorthwyo pob un o bwyllgorau'r Cynulliad mewn un maes polisi. Bydd y rhain yn cynnwys y Clerc, yr Ail Clerc, y Dirprwy Clerc a Swyddog Cymorth y Pwyllgor. O ran y Gwasanaeth Ymchwil, bydd un neu ragor o'r uwch ymchwilwyr neu'r ymchwilwyr iau yn gweithio i bwyllgor o'r math hwn am ran helaeth o'u hamser, gan ddibynnu faint o ymchwiliadau neu ddarnau o ddeddfwriaeth y bydd y Pwyllgor yn ymdrin â nhw'r un pryd, a pha feysydd polisi penodol sydd dan sylw. Bydd y Pwyllgor hefyd yn cael cymorth rhan amser gan o leiaf un cyfreithiwr, swyddog cyfathrebu a chyfieithydd.

Mae'r holl swyddogion hyn yn creu un "tîm integredig" a fydd yn cynorthwyo'r Pwyllgor, ond mae Comisiwn y Cynulliad yn ceisio gweithio mewn ffordd hyblyg ac ystwyth felly, ar adegau, gofynnir am gymorth pob un o'r meysydd gwasanaeth hyn, yn ôl yr angen, a bydd yr holl swyddogion (ar wahân i'r Clercod) hefyd yn gweithio ar faterion eraill yn ystod unrhyw wythnos neu hyd yn oed ddiwrnod penodol.

Fel y nodir uchod, os cytunir i ddatganoli pwerau newydd, bydd angen i Gomisiynwyr y Cynulliad ystyried yr effaith ar y Cynulliad a'i bwyllgorau, ymgymryd â gwaith i amcangyfrif yr adnoddau angenrheidiol a phenderfynu ar y ffordd orau o fodloni'r gofynion newydd drwy ail-flaenoriaethu adnoddau presennol, adolygu lefel y cymorth y mae'n ei roi i'r Aelodau neu geisio adnoddau ychwanegol.

Gwybodaeth sy'n berthnasol i Gymru ac arbenigedd yng Nghymru

O ran cael gwybodaeth i hybu'r gwaith o graffu ar ddatblygu a gweithredu polisi, mae Gwasanaeth Ymchwil y Cynulliad yn dweud ei bod yn anodd dros ben cael data sy'n berthnasol i Gymru yn unig gan Weinyddiaeth Cyfiawnder y DU a'r Swyddfa Gartref. Fodd bynnag, yn

ddiweddar, mae Canolfan Llywodraethiant Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd wedi arwain y ffordd ym maes cyhoeddi data cyfiawnder troseddol ar gyfer Cymru. Felly, mae'n dechrau dod yn haws dod o hyd i wybodaeth a allai hybu'r gwaith o ddatblygu polisi a chraffu ar bolisi. Byddai angen i Lywodraeth Cymru a'r Cynulliad fynd i'r afael â'r angen i ddatblygu adnoddau ymchwil ac ystadegau yn y maes polisi hwn, a hynny drwy recriwio, hyfforddi neu drwy ddefnyddio arbenigedd allanol, er enghraifft o fewn y gymuned academaidd.

O ran cael tystiolaeth berthnasol ar gyfer pwyllgorau'r Cynulliad, mae Gwasanaeth Ymchwil y Cynulliad yn dweud bod nifer o'r cyrff sy'n cynrychioli barn a buddiannau troseddwy'r a chyn-droseddwy'r yn dod o'r tu allan i Gymru. Byddai angen creu a chynnal cysylltiadau a pherthynas newydd â chyrff o'r fath, fel y mae'r Gwasanaeth Pwyllgorau'n ei wneud gydag amrywiaeth eang o gyrff cynrychiadol ar draws holl feysydd cymhwysedd presennol y Cynulliad.

Casgliad

Bydd datganoli pwerau cyfiawnder yng Nghymru yn ychwanegu'n sylweddol at waith y Cynulliad o safbwynt gwaith craffu – a hynny o ran gwaith polisi a deddfwriaeth. Bydd y modd y mae'r Cynulliad yn ymgymryd â'r gwaith ychwanegol hwn yn dibynnu nid yn unig ar y gofynion newydd a fydd ynghlwm wrth ddatganoli pwerau cyfiawnder, ond hefyd ar allu'r Cynulliad i ymateb i'r gofynion hynny. Un ffactor allweddol yn y cyswllt hwn fydd p'un a fydd argymhelliad y Panel Arbenigol o ran cynyddu maint y Cynulliad yn cael ei roi ar waith.

Mae gan Gomisiwn y Cynulliad ddyletswydd statudol i ddarparu ...” yr eiddo, y staff a'r gwasanaethau sy'n angenrheidiol at ddibenion y Cynulliad.” Ar hyn o bryd, nid yw'n bosibl, amcangyfrif faint o gymorth ychwanegol y byddai angen i'r Comisiwn ei ddarparu i ganiatáu i Aelodau'r Cynulliad ymgymryd â'r gwaith ychwanegol hwn. Bydd hyn yn dibynnu'n fawr, ymhlith pethau eraill, ar y modd y bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r pwerau hynny, ac i ba raddau, a dros ba gyfnod. Bydd gallu'r Cynulliad i graffu ar y pwerau hynny hefyd yn dibynnu ar nifer yr Aelodau, archwaeth/blaenoriaethau'r pwyllgorau a'r cyd-destun gwleidyddol ehangach ar y pryd.

Mae'r Cynulliad wedi wynebu newidiadau di-baid bron ers ei sefydlu yn 1999. Bryd hynny, roeddem ni a Llywodraeth Cymru yn un corff. Pasiwyd Deddfau yn 2006, 2011, 2014 a 2016 i newid trefniadau llywodraethu a phwerau'r Cynulliad. Yn ogystal â gwahanu oddi wrth

Adran: Cyfreithiol/Ymchwil/CCS

Tîm:

Awdur: Elisabeth Jones/Kathryn Potter/Sian Wilkins

Lywodraeth Cymru yn 2007, cawsom bwerau i wneud deddfwriaeth sylfaenol ac, yn fwy diweddar, cawsom bwerau i godi trethi, gan gynnwys diwygio cyfraddau treth incwm.

Wrth wynebu'r newidiadau hyn, eu heffaith ar fywydau pobl Cymru oedd flaenllaw ym meddyliau'r 60 o Aelodau, staff yr Aelodau a staff y Comisiwn, ac rydym wedi llwyddo i addasu i'r newidiadau hynny. Byddwn yn wynebu unrhyw bwerau newydd a gaiff eu datganoli ym maes trefniadau cyfiawnder yn yr un modd.